

---

## Datblygu agweddau ar feddwl geometrig ME627

---

### *Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Ebrill*

#### *Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddysgu geometreg ar Gyfnod Allweddol 2–4. Mae'n integreiddio datblygiad syniadau craidd geometreg â lluniadau ac egwyddorion addysgegol perthnasol, a bydd yn gwella eu hymwybyddiaeth o'r ffordd y mae pobl yn dysgu ac yn defnyddio geometreg. Nid oes unrhyw esboniad ffurfiol: mae'r asesiad yn seiliedig ar dri asesiad sydd wedi'u marcio gan diwtoriaid ac asesiad diwedd modiwl. Er mwyn cwblhau'r asesiadau hyn, bydd angen i fyfyrwyr gael mynediad at o leiaf un dysgwr geometreg (mwy yn ddelfrydol) yn ystod Cyfnodau Allweddol 2–4. Gall y modiwl hwn gyfrif fel rhan o'r Diploma i Raddedigion mewn Addysg Mathemateg.

#### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad eang o ysgolion y DU ac addysg mathemateg y DU
- gwybodaeth eang am addysg mathemateg
- profiad o ddefnyddio TGCh ym maes addysg mathemateg
- profiad o addysgu oedolion
- profiad o ddefnyddio meddalwedd geometreg ddynamig.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o gynnal hyfforddiant mathemateg mewn swydd
- gradd uwch mewn addysg mathemateg
- papurau cyhoeddiedig yn gysylltiedig ag addysg geometreg
- diddordeb mewn addysg mathemateg yn rhyngwladol

#### *Gwybodaeth Ychwanegol*

Gan y bydd gan fyfyrwyr ar y modiwl hwn ddewis i gyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system eTMA, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r system eTMA. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o ganllawiau ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

#### *Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	15
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	5

*Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.*